**Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd

7 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Ionawr ynglŷn â dehongli Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('Deddf 2018') a'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin. Roedd y llythyr hwnnw yn canolbwyntio'n arbennig ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, a'r Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Byddwch wedi nodi hefyd fod yr Offerynnau Statudol (OSau) cysylltiedig wedi cael eu gosod yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer sifftio. Adroddodd eich pwyllgor ar Reoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ar 21 Ionawr, gan nodi'r mater o dystysgrifau cymhwysedd ac argymell y dylid gosod yr OS yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol. Cafodd adroddiad eich pwyllgor ar OS Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019 ei gyhoeddi ar 21 Ionawr a'i argymell ar gyfer y weithdrefn negyddol. Gallwn drafod yr OSau hyn felly gan ein bod wedi gweld yr ystod gyfan o ddiwygiadau a gynigir drwy'r OSau Cymreig ac OSau y DU.

O ran dehongli Deddf 2018, mae yna elfen o ddewis polisi wrth benderfynu ar y ffordd briodol i fynd i'r afael â diffyg, ond nid yw dewis polisi o reidrwydd yn golygu bod unrhyw newid o sylwedd i'r polisi ei hun. Rydym wedi ystyried yn ofalus holl reoliadau'r DU, sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, ac lle nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng polisi ar sut y dylid mynd ati i gywiro'r diffygion, rhoddwyd cydsyniad.

Nodwn eich barn bod polisi 'newydd' wedi'i fabwysiadu, mewn perthynas â'r rheoliadau y sonioch amdanynt, ond nid ydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw. Mae'r dewis o bolisi wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y gyfraith yn weithredol adeg yr ymadawiad â'r UE.

Yn y ddau OS hwn, rydym wedi dewis cadw'r agweddau sylfaenol ar y polisi presennol, i'r graddau y bo hynny'n bosibl pan fydd cyfranogiad yr UE wedi cael ei ddileu. Golyga hyn mewn rhai achosion y bu'n rhaid diwygio'r dull cyflawni ond, yn ein barn ni, nid yw'r safbwynt polisi wedi newid o ran ei sylwedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhaid gofyn i ba raddau y gellir newid polisi cyn iddo fod cyfystyr â pholisi newydd, ac nid ydym yn ystyried bod y trothwy hwnnw wedi'i gyrraedd yn yr achos hwn.

O ran Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018 a Rheoliad y Cyngor (EC) 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd, rydym yn derbyn y bydd cywiro'r diffyg yn cael yr effaith o leihau nifer y gwledydd y bydd eu tystysgrifau cymhwysedd yn cael eu cydnabod yn y DU ar ôl iddi ymadael â'r UE. Mae'n amlwg mai'r ymadawiad â'r UE sy'n gyfrifol am hyn er mwyn i'r fframwaith gorfodi allu parhau'n weithredol ac mae'n cynnal y polisi sylfaenol o gynllun ardystio i'r DU gyfan ar gyfer cigyddwyr, gyda gallu effeithiol i orfodi safonau.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn gwbl glir bod tystysgrif cymhwysedd i'w gael ar hyn o bryd, a roddir i gigyddwyr gan Aelod-wladwriaethau eraill, sy'n rhaid ei chydnabod yn y DU. Mae'n ofynnol i ladd-dai yn yr UE gael tystysgrifau cymhwysedd sy'n dangos bod unigolyn wedi cael ei hyfforddi a'i asesu'n llwyddiannus hyd at lefel ddigonol o gymhwysedd i ymgymryd â'r gwaith o drin anifeiliaid, eu stynio a'u lladd a'r gweithrediadau cysylltiedig sy'n ofynnol ganddynt. Caiff y gofyniad hwn i gydnabod ei ddileu gan y diwygiadau a wneir i Erthygl 21(4) o Reoliad y Cyngor (EC) 1099/2009.

Byddai parhau i gydnabod tystysgrifau a roddir mewn Aelod-wladwriaethau eraill yn arwain at faterion gorfodi posibl – ni fyddem yn gallu atal neu ddirymu tystysgrif a roddir mewn Aelod-wladwriaeth arall pe byddai cigyddwr yn torri gofynion y ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir neu ddeddfwriaeth ddomestig. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes wedi cadarnhau na fydd tystysgrifau cymhwysedd a roddir yn y DU yn cael eu cydnabod mewn Aelod-wladwriaethau eraill ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Rydym wedi dewis cadw agweddau sylfaenol ar ein polisi presennol, sef parhau'n rhan o'r system bresennol i'r DU gyfan ar gyfer tystysgrifau cymhwysedd. Byddai mabwysiadu polisi newydd a sefydlu system ar wahân i Gymru ar gyfer tystysgrifau cymhwysedd yn opsiwn arall. Nid oedd sail resymegol gymhellgar dros wneud hynny ar hyn o bryd, ond mae'r opsiwn hwn yn agored inni o hyd yn y dyfodol pe byddai hynny'n dod yn bolisi gan Lywodraeth Cymru.

O ran Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, yn yr un modd, nid ydym yn ystyried bod y diwygiadau yn cyflwyno safbwynt polisi 'newydd', ond eu bod hytrach yn gosod y rhwymedigaethau presennol ar sylfaen ddomestig. Gan ystyried y rhwymedigaeth mewn perthynas â dŵr gwastraff trefol fel enghraifft – cynlluniwyd y ddarpariaeth adrodd a gyflwynwyd fel y Rheoliad 12A newydd yn Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994 i gymryd lle'r swyddogaeth Aelod-wladwriaeth o lunio adroddiad sefyllfa i'r Comisiwn a geir yn Erthygl 16 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/271/EEC o 21 Mai 1991, sy'n ymwneud â thrin dŵr gwastraff trefol.

> *Erthygl 16*
> Without prejudice to the implementation of the provisions of Council Directive 90/313/EEC of 7 June 1990 on the freedom of access to information on the environment [5], Member States shall ensure that every two years the relevant authorities or bodies publish situation reports on the disposal of urban waste water and sludge in their areas. These reports shall be transmitted to the Commission by the Member States as soon as they are published.

Gwneir yr un peth yn yr OS hwn mewn perthynas â meysydd fel Nitradau a Dyfroedd Ymdrochi ymhlith eraill.

Bydd yr adroddiadau presennol yn cael eu cyhoeddi, yn hytrach na'u hanfon i'r Comisiwn. Byddai methu â rhoi rhywbeth yn lle'r swyddogaeth hon, neu roi rhywbeth yn ei lle ar gyfer

Cymru gyfan yn unig wedi bod yn newid o'r polisi presennol, lle mae camau yn cael eu cymryd ar lefel y DU. Mae Memorandwm Esboniadol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) San Steffan yn dweud: "Where there was a reference in an EU Directive to a Member State reporting to the European Commission, for example the requirement in the Urban Waste Water Treatment Directive to provide a situation report on the disposal of urban waste water and sludge, this is being replaced by a requirement in the domestic legislation that such an environmental report is to be made publicly available. This is being done as the Department wishes to remain transparent about its environmental performance".

Nid yw ein safbwynt polisi ni wedi newid – mae'n bwysig bod yn dryloyw am berfformiad amgylcheddol ac felly dylid cadw'r swyddogaeth hon. Mae natur drawsffiniol llifogydd a rheoli dŵr (lle nad yw ffiniau cymhwysedd datganoledig yn cyd-fynd â ffiniau daearyddol) yn golygu ein bod wedi penderfynu cadw at ein dull presennol o adrodd ar lefel y DU.

Rydym yn gwerthfawrogi'r pwyntiau a godwyd gennych ynglŷn â dehongli Deddf 2018 a chymhwyso'r Cytundeb Rhynglywodraethol; yn benodol y rheoliadau y tynnwyd sylw atynt gennych chi fel enghreifftiau.

Mae'r drafodaeth werthfawr hon yn tynnu sylw at yr ystyriaeth ofalus y dylid ei rhoi i gywiro diffygion drwy reoliadau o dan Ddeddf 2018 a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i asesu'n ofalus y rheoliadau a wneir gan y DU ar ein rhan er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford**